| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD:** | **1 MAWRTH 2012** |
| **TEITL:** | **RHEOLAETH TRYSORLYS:**<br><br>**i) DIWYGIAD O'R DATGANIAD POLISI RHEOLAETH TRYSORLYS YN DILYN CYHOEDDIAD O GÔD DIWYGIEDIG GAN CIPFA**<br><br>**ii) DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2012/13** |
| **PWRPAS:** | **MABWYSIADU'R POLISI A'R STRATEGAETHAU ARFAETHEDIG** |
| **AWDUR:** | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD SIÂN GWENLLÏAN** |

## 1. COD YMARFER

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â holl weithrediadau'r trysorlys. Prif ofyniad y Cod yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd y rhain gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2011. Yn dilyn adolygiad arall o'r côd yn Nhachwedd 2011, mae CIPFA yn mynnu bod y Datganiad Polisi yn cynnwys polisïau lefel uwch y Cyngor ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau. Dangosir y Datganiad Polisi wedi ei adolygu, yn **Atodiad A**.

## 2. STRATEGAETH FUDDSODDI

Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn nodi y gall awdurdodau gyfuno Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol i un adroddiad. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi ei chynnwys yn rhan 7 o **Atodiad B**.

## 3. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

Yn ôl y Côd a'r cyfarwyddyd mae gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2012/13 yn **Atodiad B.**

## 4. DANGOSYDDION DARBODUS

Yn ychwanegol cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith darbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu newydd ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd y penderfyniadau hyn. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn dilyn o'r adolygiad diweddaraf mae CIPFA wedi cyflwyno dangosydd darbodus newydd, "Terfynau Uchaf ar gyfran dyled net i ddyled gros", er mwyn tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar y cynigion yn yr adroddiadau cyllideb refeniw a chyfalaf wedi eu cynnwys yn **Atodiad C.**

## 5. GWRTHBARTÏON (BANCIAU)

Diweddarwyd y rhestr o wrthbartïon **(Atodiad CH)** er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Mae uchafswm cyfnod y benthyciad ar gyfer sefydliadau'r DU wedi eu gostwng o 2 flynedd lawr i flwyddyn i adlewyrchu'r argymhellion yma. Nodir y newidiadau hyn mewn print trwm yn **Atodiad CH**, gyda'r terfyn cynt mewn cromfachau.

## 6. BENTHYCA

O'r 31ain o Fawrth 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithrediad y gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi eu cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR neu "MRP") blynyddol. Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae'r strategaeth atodol yn rhan 11 o **Atodiad B** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2012/13.

## 7. GWEITHDY AELODAU

Cafodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Arweinydd Portffolio Cyllid eu gwahodd i gyfarfod briffio gyda Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd aelodau o God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys, ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys. Fe amlygodd yr ymgynghorwyr y gwahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys, a buont yn siarad mewn manylder am risgiau credyd a gwrthbarti, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Fe drafodwyd portffolio dyled y Cyngor, y dangosyddion darbodus, ac fe amlygwyd y prif newidiadau i'r Cod Rheolaeth Trysorlys a'r Nodiadau Cyfarwyddyd yn dilyn yr adolygiad gan CIPFA yn Nhachwedd, 2011

**8.** **CRAFFU FFURFIOL**

Cyflwynwyd yr holl bapurau canlynol i'r Pwyllgor Archwilio ar 13 Chwefror ac i Fwrdd y Cyngor ar 14 Chwefror, lle eglurwyd nad oedd y bygythiad i raddfa credyd y DU am newid y cynnwys. Penderfynwyd yn y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd i argymell i'r Cyngor llawn fel a ganlyn:

**ARGYMHELLIAD**

**9.** **Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiad A), Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2012/13 (Atodiad B), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad C) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiad CH).**

**ATODIAD A**

# CYNGOR GWYNEDD

## DATGANIAD POLISI RHEOLAETH TRYSORLYS

1. Diffinia'r Cyngor ei weithgareddau rheolaeth trysorlys fel a ganlyn:

   *"Rheolaeth llif arian a buddsoddiadau'r Cyngor a'i drafodion bancio, marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a'r ymgais am y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny."*

2. Ystyria'r Cyngor mai adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau rheolaeth trysorlys. O ganlyniad, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheolaeth trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r Cyngor, ac unrhyw offerynau ariannol a ddefnyddir i reoli'r risgiau hyn.

3. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rheolaeth trysorlys effeithiol yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Gan hynny mae'n ymrwymedig i egwyddorion cyflawni gwerth gorau mewn rheolaeth trysorlys, a defnyddio technegau addas cynhwysfawr ar gyfer mesur perfformiad, o fewn cyd-destun rheolaeth risg effeithiol.

4. Bydd benthyciadau'r Cyngor yn fforddiadwy, gynaliadwy ac yn ddarbodus a bydd ystyriaeth yn cael ei roi i reoli risg cyfraddau llog a risg ail gyllido. Dylai bod ffynhonell y benthyca a'r math o fenthyca yn galluogi'r Cyngor gael tryloywder a rheolaeth dros ei ddyled.

5. Prif amcan y Cyngor mewn perthynas a'i fuddsoddiadau yw diogelu cyfalaf. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau'r Cyngor, yn ogystal â'r enillion a geir o fuddsoddiadau yn bwysig, ond ystyriaethau eilradd ydynt.

**ATODIAD B**

# DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2012/13 I 2014/15

## 1. Cefndir

1.1 Mae Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (Côd TM CIPFA) a'r Côd Darbodus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (TMSS) a Dangosyddion Darbodus (PI) yn flynyddol. Mae'r TMSS hefyd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (AIS), sy'n ofynnol yng Nghanllaw Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

1.2 Diben y Datganiad TMSS hwn felly yw cymeradwyo:

- Y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2012/13;
- Y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2012/13;
- Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2012/13, 2013/14 a 2014/15;
- Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP).

1.3 Mae Rheolaeth Trysorlys yn ymwneud â rheoli risg. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei benderfyniadau a gweithgarwch trysorlys. Nid oes unrhyw weithgarwch rheolaeth trysorlys nad ydyw'n cyflwyno risg.

1.4 Yn unol â gofynion y Côd Darbodus, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Côd Rheolaeth Trysorlys CIPFA mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 3 Mawrth, 2011.

1.5 Bydd yr holl weithgarwch trysorlys yn cydymffurfio â statud, canllawiau a safonau cyfrifeg perthnasol.

## 2. Gofyn Cyllido Cyfalaf

2.1 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf ei fesur drwy'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR). Y CFR, ynghyd â'r cronfeydd defnyddiadwy (Usable Reserves) yw'r gyrwyr craidd tu ôl i weithgareddau rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

2.2 Ceir lefel dyled a buddsoddiadau presennol yr Awdurdod isod:

| | **23 Ionawr 2012 £m** |
|---|---|
| **Benthyca Allanol:** | |
| Cyfradd Sefydlog – PWLB | 97.8 |
| Cyfradd Sefydlog – Y Farchnad | 16.2 |
| Rhwymedigaethau Hirdymor IFRS: | |
| Lesau Gweithredol | 0.5 |
| **Cyfanswm Dyledion Allanol** | **114.5** |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **(70.9)** |
| **Sefyllfa Fenthyca Net / (Sefyllfa Fuddsoddi Net)** | **43.6** |

2.3 Gall yr Awdurdod fenthyca cyllid tu hwnt i lefel cyfredol ei CFR hyd at y lefel a ragamcanwyd yn 2014/15. Mae'n debygol y bydd yr Awdurdod ond yn benthyca cyn bod angen os bydd yn teimlo bod y buddion o fenthyca ar y cyfraddau llog fel y maent, o gymharu â sut y disgwylir iddynt fod yn y dyfodol, yn gorbwyso'r gost a'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â buddsoddi'r arian tan fod gwir angen benthyca'r arian.

2.4 Mae’r symudiad a ragwelir yn y CFR dros y blynyddoedd i ddod yn un o’r Dangosyddion Darbodus (PI). Mae’r symudiad yn y gwir ddyled allanol a chronfeydd defnyddiadwy yn dod at ei gilydd i ffurfio gofyn benthyca’r Awdurdod, a’i strategaeth fuddsoddi bosib nawr ac yn y dyfodol.

**Tabl 1: Mantolen yn rhoi Crynodeb Dadansoddol**

| | **2011/12 Amcan £m** | **2012/13 Amcan £m** | **2013/14 Amcan £m** | **2014/15 Amcan £m** |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR)** | 153.80 | 162.03 | 170.34 | 173.50 |
| Llai: Proffil Benthyca Cyfredol ac Ymrwymiadau Hirdymor Eraill | (114.34) | (112.84) | (113.53) | (116.51) |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol Cronnus** | **39.46** | **49.19** | **56.81** | **56.99** |
| Cronfeydd Defnyddiadwy | 63.14 | 58.88 | 57.65 | 57.13 |
| **Gofyn Benthyca Net Cronnus (Buddsoddiadau)** | **(23.68)** | **(9.69)** | **(0.84)** | **(0.14)** |

2.5 Dengys Tabl 1 na ellir ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn llwyr o ffynonellau ar wahân i fenthyca allanol.

## 3. Rhagolygon Cyfraddau Llog

3.1 Mae’r rhagolygon economaidd a chyfraddau llog fel ym mis Rhagfyr 2011, yn cael eu darparu gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd, ac fe’u dengys isod. Bydd yr Awdurdod yn ail werthuso ei strategaethau o dro i dro wrth ymateb i ddigwyddiadau economaidd, gwleidyddol a chyllidol.

| | Mar-12 | Jun-12 | Sep-12 | Dec-12 | Mar-13 | Jun-13 | Sep-13 | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | | | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Downside risk | | | | | | | | | | | | | |
| 1-yr LIBID | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 1.75 | 1.75 | 1.75 | 1.75 | 1.80 | 1.85 | 1.95 | 2.00 | 2.10 | 2.20 | 2.30 | 2.40 | 2.40 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 5-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 1.30 | 1.35 | 1.40 | 1.50 | 1.60 | 1.70 | 1.80 | 2.00 | 2.10 | 2.30 | 2.40 | 2.50 | 2.50 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 10-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 2.30 | 2.40 | 2.45 | 2.50 | 2.55 | 2.60 | 2.70 | 2.75 | 2.80 | 2.85 | 2.90 | 3.00 | 3.00 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 20-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 3.05 | 3.05 | 3.10 | 3.20 | 3.25 | 3.30 | 3.35 | 3.40 | 3.45 | 3.50 | 3.60 | 3.75 | 3.75 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 50-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 3.40 | 3.50 | 3.60 | 3.70 | 3.80 | 3.90 | 4.00 | 4.00 | 4.00 | 4.10 | 4.20 | 4.25 | 4.25 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |

Mae eu rhagolygon economaidd ym mis Rhagfyr 2011 fel a ganlyn:

- Mae polisïau ariannol confensiynol wedi mynd yn eithaf segur: mae Banc Lloegr a Chronfa Ffederal yr UD wedi nodi y bydd eu cyfraddau llog yn llonydd hyd nes diwedd 2012. Credwn y gallai fod yn 2016 cyn i gyfraddau llog swyddogol y DU godi.
- Disgwylir i statws diogel y DU, effaith uniongyrchol Quantitative Easing (QE) a'r annhebygolrwydd o gynnydd yng nghyfraddau polisi, gadw cynnyrch gilt yn isel yn y tymor agos.
- Mae'r diwedd blêr i argyfwng sofren Ardal yr Ewro yn parhau i fod yn risg economaidd, credyd a gwleidyddol allweddol.

Mae eu tybiaethau sylfaenol fel a ganlyn:

- Disgwylir i'r pwysau ar y farchnad ariannol barhau yn 2012. Mae'r cyfraddau o fewn marchnadoedd rhwng banciau (lle mai'r banciau yn ariannu'r rhan fwyaf o'u gweithrediadau dydd i ddydd) wedi parhau i gynyddu. Roedd y tuedd hwn yn nodweddiadol o argyfwng bancio 2008, a tra bod yr awdurdodau wedi rhoi hylifedd yn ôl i'r marchnadoedd, mae'n parhau i fod yn arwydd cryf o risg i'r farchnad.
- Mae chwyddiant wedi setlo'n ôl i 4.8% ym mis Tachwedd. Disgwylir i'r CPI ostwng yn ôl tua'r targed o 2% wrth i'r cynnydd mewn TAW yn Ionawr 2011, a'r cynnydd aruthrol mewn prisiau olew ac ynni, ddisgyn allan o'r gymhariaeth 12 mis.
- Mae data ac arolygon diweddar yn awgrymu, ers yr haf, bod economi'r DU wedi colli'r ychydig fomentwm oedd ganddo. Mae arolygon busnes ac arolygon defnyddwyr yn awgrymu y bydd y gwendid yn parhau dros y misoedd i ddod. Gall toriadau mewn gwariant cyhoeddus, mesurau cynildeb, cyfyngiadau credyd a diffyg hyder ymysg busnesau a defnyddwyr, arwain at yr economi'n dod i stop (ac eithrio Chwarter 3, pan ddisgwylir i Gemau Olympaidd 2012 roi hwb dros dro), ac oherwydd y pwysau, mae'n debyg y bydd Banc Lloegr yn gorfod darparu mwy o QE.
- Mae twf byd-eang yn pallu, ac ni chaiff ei helpu gan ansicrwydd sylweddol a risgiau cynyddol o ganlyniad i'r argyfwng yn Ardal yr Ewro, yn ogystal â'r UD yn dod i stop wrth iddo nesáu at flwyddyn etholiad. Gallai'r effeithiau dilynol yn eu tro roi straen ar y twf mewn gwledydd megis Tsieina a'r marchnadoedd sy'n datblygu.
- Disgwylir i'r cyflenwad gilt fod yn uwch yn 2012-13 nag a ragwelwyd gan y Trysorlys yn gynharach. Fodd bynnag, dros y tymor byr, bydd y giltiau'n parhau i fod yn ddiogel, tra bod perygl i'r risg yn ardal yr ewro ymledu ymhellach.
- Mae cryn ail ariannu ac adbrynu bondiau Ewropeaidd (yn enwedig gan yr Eidal) yn hanner cyntaf 2012 yn parhau i fod yn her sylweddol. Gall rhwystrau i gydgyfeiriant ariannol a newidiadau cytundeb ddwysau'r pwysau ar y gwledydd craidd AAA, yn ogystal â'r gwledydd ymylol, i gael eu hisraddio. Efallai na fydd y Gronfa Sefydlogrwydd Ariannol Ewropeaidd (EFSF) mor effeithiol â'r disgwyl, sy'n cynyddu'r posibilrwydd o fethiant y sofren neu ardal yr ewro yn chwalu.

## 4. Strategaeth Fenthyca

4.1 Mae lefel absoliwt cyfraddau benthyca, yn ogystal â'r berthynas rhwng cyfraddau llog tymor byr a hir, yn parhau i ddylanwadu ar reoli'r trysorlys, a strategaethau benthyca yn benodol. Mae'r rhagolygon cyfraddau llog yn nhabl 3.1 yn dangos bod disgwyl i'r gwahaniaeth mawr rhwng cyfraddau llog tymor hir a byr barhau. Mae'r gwahaniaeth hwn yn creu "cost cario" (cost of carry) ar gyfer unrhyw fenthyciad tymor hirach newydd, lle caiff yr enillion eu cadw dros dro fel buddsoddiadau, oherwydd y gwahaniaeth rhwng beth sy'n cael ei dalu ar y benthyciad, a beth sy'n cael ei ennill ar y buddsoddiad. Er y gellir tybio mai problem tymor byr yw'r gost cario, gan fod benthyca'n digwydd am gyfnodau hirach (hyd at 50 mlynedd), ni ellir ei anwybyddu yn wyneb ansicrwydd a chyfyngiadau fforddiadwyedd yn sefyllfa ariannol ehangach yr Awdurdod.

4.2 Fel y dengys Tabl 1, mae gan yr Awdurdod ofyn benthyca gros o £49m yn 2012/13, ond mae ganddo falansau a chronfeydd wrth gefn digonol i osgoi gorfod benthyca'n allanol. Wrth fenthyg ei gronfeydd dros ben iddo'i hun, i bob pwrpas, gall yr Awdurdod leihau costau benthyca cymaint ag sy'n bosib, a lleihau'r risg credyd a gwrthbarti, drwy leihau lefel ei falansau buddsoddi allanol.

## 5. Ffynonellau Benthyca a Goblygiadau Portffolio

5.1 Yn unol â chyngor gan ei ymgynghorydd trysorlys, Arlingclose Ltd, bydd yr Awdurdod yn cadw golwg ar y ffynonellau benthyca a ganlyn:

- PWLB
- Awdurdodau lleol
- Banciau masnachol
- Banc Buddsoddi Ewrop
- Marchnadoedd arian
- Marchnadoedd cyfalaf (dyroddiadau stoc, biliau a phapur masnachol)
- Cyllid strwythuredig
- Lesu

5.2 Mae'r gost cario wedi arwain at ddibyniaeth uwch ar fenthyca mwy byrdymor, ac ar raddfa gyfnewidiol. Mae benthyca o'r math hwn yn rhoi ansefydlogrwydd i'r proffil dyled o ran risg cyfradd llog, ond mae fforddiadwyedd benthyca o'r fath yn gwneud i fyny am hyn, yn ogystal â'r enillion a geir o fuddsoddiadau yn erbyn costau benthyca. Cedwir golwg reolaidd ar faint o fenthyca mwy byrdymor, ar gyfradd gyfnewidiol, a wna'r Awdurdod, drwy gyfeirio at y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyfnewidiol a chostau benthyca mwy hirdymor. Bydd lleihad yn y gwahaniaeth o 0.5% yn arwain at adolygiad ffurfiol ar unwaith o'r strategaeth fenthyca, i bennu a ddylid cadw'r defnydd o fenthyca mwy byrdymor, ar gyfradd gyfnewidiol, neu ei altro.

5.3 Mae'r Awdurdod wedi benthyca £16.2m drwy fenthyciadau LOBO (Lender's Option Borrower's Option), a gall y rhain gael eu "galw'n" ôl yn ystod 2013/14. "Gelwir" LOBO pan fo'r sawl sy'n rhoi benthyg yr arian (Lender) yn defnyddio'i hawl i ddiwygio'r gyfradd llog ar y benthyciad. Ar y pwynt hwn, gall y Benthyciwr dderbyn y telerau diwygiedig, neu eu gwrthod a thalu'r benthyciad yn ôl. Mae benthyciadau LOBO yn cyflwyno risg ail gyllido posib i'r Awdurdod, gan fod y penderfyniad i alw LOBO ar ddisgresiwn llwyr y sawl sy'n rhoi benthyg. Bydd unrhyw LOBO a hawlir yn ôl yn cael ei drafod gyda'r ymgynghorwyr trysorlys cyn derbyn unrhyw delerau diwygiedig. Y sefyllfa arferol fyddai talu'r LOBO yn ôl heb gosb h.y. peidio â derbyn y telerau diwygiedig. Ar sail Crynodeb y Fantolen, yn Nhabl 1, byddai'n rhaid ariannu unrhyw ad-daliad gyda benthyciad newydd allanol.

## 6. Aildrefnu Dyledion

6.1 Gellir ailstrwythuro portffolio dyledion yr Awdurdod drwy dalu benthyciadau'n ôl yn gynnar, a'u hail gyllido ar delerau tebyg neu wahanol i gael lleihad mewn risg ac/neu arbedion mewn costau llog.

6.2 Mae cyfraddau llog is, a newidiadau yn y rheolau ynglyn â thalu benthyciadau PWLB yn ôl yn gynnar, wedi effeithio er gwaeth ar y sgôp i ailstrwythuro dyledion yn ystyrlon, er efallai bydd cyfleoedd yn codi o dro i dro. Byddai un neu fwy o'r hyn a nodir isod yn rheswm am aildrefnu dyledion:

- Arbedion mewn costau llog wedi'u haddasu yn ôl risg (risk adjusted);
- Ail-fantoli strwythur cyfradd llog y portffolio dyledion;
- Newid proffil aeddfedrwydd y portffolio dyledion.

6.3 Adroddir ar weithgarwch benthyca ac aildrefnu i'r Pwyllgor Archwilio yn yr Adroddiad Rheolaeth Trysorlys Blynyddol, a'r adroddiadau rheolaeth trysorlys rheolaidd a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

## 7. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

7.1 Yn unol â'r Canllaw Buddsoddi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac arfer gorau, prif amcan yr Awdurdod hwn o ran buddsoddi arian cyhoeddus yw diogelu cyfalaf. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau'r Awdurdod, yn ogystal â'r enillion a geir o fuddsoddiadau yn bwysig, ond ystyriaethau eilradd ydynt.

7.2 Mae marchnadoedd credyd yn parhau i fod mewn trybini, o ganlyniad i'r dyledion gormodol a gwael o fewn y marchnadoedd ariannol. Mewn rhai achosion, yr Eidal a Groeg yw'r enghreifftiau amlycaf, mae maint a goblygiadau'r ddyled sydd wedi'i gronni wedi arwain at argyfwng dyledion sofren, ac argyfwng bancio nad oes wybod beth fydd ei ganlyniad. Mae strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod wedi'i fframio yn erbyn y cefndir hwn o ansicrwydd.

7.3 Mae buddsoddiadau wedi'u categoreiddio fel rhai "Penodedig" ac "Amhenodedig" o fewn y Canllaw Buddsoddi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Buddsoddiadau sterling yw buddsoddiadau penodedig, gydag aeddfedrwydd o flwyddyn ar y mwyaf. Maent hefyd yn cwrdd â'r "ansawdd credyd uchel" fel y pennwyd gan yr Awdurdod, ac ni ystyrir hwy fel buddsoddiadau gwariant cyfalaf dan y Statud. Buddsoddiadau amhenodedig, i bob pwrpas, yw popeth arall.

7.4 Mae'r mathau o fuddsoddiadau y bydd yr Awdurdod yn eu defnyddio, a p'un a ydynt yn rhai penodedig neu amhenodedig, fel a ganlyn:

**Tabl 2: Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig**

| Buddsoddiad | Penodedig | Amhenodedig |
|---|---|---|
| Cyfleuster Adneuon yr Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF) | ✓ | ✗ |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | ✓ | ✗ |
| Biliau Trysorlys | ✓ | ✗ |
| Biliau'r Awdurdod Lleol | ✓ | ✗ |
| Adneuon cyfnod penodol gydag awdurdodau lleol eraill y DU | ✓ | ✓ |
| Adneuon cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu | ✓ | ✓ |
| Tystysgrif adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu | ✓ | ✓ |
| Giltiau | ✓ | ✓ |
| Bondiau wedi eu dyroddi gan fanciau datblygu amlochrog | ✓ | ✓ |
| Bondiau Corfforaethol | ✓ | ✓ |
| Cynlluniau Marchnad Arian a Buddsoddi ar y Cyd eraill | ✓ | ✓ |
| Benthyciadau Busnes i Gwmnïau Lleol (fel y cytunwyd gan y cynllun Cronfa Benthyciadau Lleol)* | ✗ | ✓ |

** Cymeradwyir echwyn o'r benthyciadau trwy'r broses y manylir arni isod. Nid yw arfarniad o'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a ddarparir gan ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod.*

7.5 Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2012/13 mewn ymateb i amodau sy'n esblygu yn y marchnadoedd ariannol. Mae'r wasgfa ariannol wedi rhoi'r ffocws yn ôl ar y flaenoriaeth, wrth reoli'r trysorlys, o ddiogelu'r arian cyfalaf sy'n cael ei fuddsoddi. Mae'r awdurdod yn defnyddio statws credyd i ffurfio ei restr o wrthbartïon. Bydd yr awdurdod a'i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd, yn parhau i gynnal rhestr o wrthbartïon a bydd yn asesu a diweddaru statws credyd y sefydliadau'n rheolaidd. Mae'r awdurdod a'i ymgynghorwyr trysorlys yn dethol gwledydd a sefydliadau ariannol ar ôl dadansoddi a monitro'n barhaus yr hyn a ganlyn:

- Statysau credyd a gyhoeddwyd ar gyfer sefydliadau ariannol (isafswm statws hirdymor o A- neu gyfwerth i wrthbartïon; AA+ neu gyfwerth i wledydd sofren ar wahân i'r DU) – mae hyn yn is na'r isafswm o A+ a fabwysiadwyd yn 2011/12, ac mae'n ymateb i'r israddio mewn statysau credyd dan A+ a wnaed i lawer o sefydliadau yr ystyrir eu bod yn bwysig i'r system ariannol.
- "Credit Default Swaps" (ble bônt wedi'u nodi)
- Elfennau sylfaenol economaidd (er enghraifft, Dyled Net fel canran o'r GDP)
- Mecanweithiau i gefnogi'r sofren
- Pris Cyfranddaliadau
- Datblygiadau corfforaethol, newyddion, erthyglau, teimladau a momentwm y farchnad
- Synnwyr cyffredin

Gellir atal neu gael gwared ar unrhyw sefydliad sy'n peri pryder drwy unrhyw un o'r risgiau uchod. Gweler rhestr o wrthbartïon y Cyngor yn Atodiad CH.

Mae dal yn bolisi gan yr Awdurdod i wneud eithriadau i bolisi gwrthbarti a ffurfiwyd o gwmpas statysau credyd, ond mae hyn yn destun amodau. Mae hyn yn golygu y gall sefydliad sy'n cwrdd â'r meini prawf gael ei atal, ond ni fydd sefydliadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf yn cael eu hychwanegu.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y Buddsoddiadau Amhenodedig yn y tabl uchod, a byddant am uchafswm o 10 mlynedd. Bydd cyfanswm y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn tua £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu drwy benodi ymgynghorwyr, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

7.6 Bancwr yr Awdurdod – Mae'r Awdurdod yn bancio gyda Barclays Bank plc. Ar hyn o bryd, mae'n cwrdd â'r statws credyd isafswm o A- (neu gyfwerth) i'r tymor hir. Hyd yn oed os yw'r statws credyd yn disgyn islaw meini prawf isafswm yr Awdurdod, byddwn yn parhau i'w ddefnyddio i ddibenion hylifedd byrdymor (buddsoddiadau dros nos a phenwythnos) a threfniadau parhad busnes.

## 8. Strategaeth Fuddsoddi

8.1 Gyda chyfraddau llog tymor byr yn is am amser hwy byth, bydd strategaeth fuddsoddi fel arfer yn arwain at ymestyn cyfnodau buddsoddi, os yw llif arian yn caniatáu, er mwyn cael cyfraddau uwch o enillion derbyniol ar ôl haddasu yn ôl risg (risk adjusted). Y broblem yn yr hinsawdd bresennol yw dod o hyd i wrthbarti i fuddsoddi lle ceir lefelau derbyniol o risg gwrthbarti.

8.2 Er mwyn amrywio portffolio buddsoddi sydd wedi'i fuddsoddi mewn arian yn bennaf, fe wneir y buddsoddiadau gydag ystod o wrthbartïon buddsoddi cymeradwy, er mwyn cyflawni portffolio amrywiol o wrthbartïon, cyfnodau buddsoddi a chyfraddau enillion darbodus. Gosodir lefelau uchaf o fuddsoddi gyda phob gwrthbarti, er mwyn sicrhau cael amrywiaeth darbodus.

8.3 Caiff cronfeydd marchnad arian (MMF) eu defnyddio hefyd, ond mae arfer dda wrth reoli'r trysorlys yn dod yn gyntaf, a thra bod MMF yn rhoi amrywiaeth dda, bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio defnyddio mwy nag un MMF. Bydd yr Awdurdod hefyd yn cyfyngu ar ei ddefnydd o MMF sy'n rheoli lefelau is o arian, ac ni fydd yn buddsoddi mwy na 0.5% o werth ased net yr MMF.

## 9. Defnyddio Offerynnau Ariannol i Reoli Risg

9.1 Ar hyn o bryd, mae grym cyfreithiol yr Awdurdodau Lleol i ddefnyddio offerynnau deilliannol (derivative) yn aneglur. O'r herwydd, nid yw'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio derivatives.

9.2 Pe bai'r sefyllfa hon yn newid, mae'n bosib y byddai'r Awdurdod yn ceisio datblygu fframwaith rheoli risg cadarn a manwl i reoli'r defnydd o derivatives, ond bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn i'r newid hwn yn y strategaeth.

## 10. Y Gofyn am Gyllideb Gytbwys

10.1 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â darpariaethau A93 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 o ran gosod cyllideb gytbwys.

## 11. Datganiad MRP 2012/13

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

11.2 Dyma'r pedwar opsiwn MRP sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull CFR
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

*D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.*

11.3 MRP yn 2012/13: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Non-HRA) a ariennir o fenthyciad.(ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Awdurdod yn penderfynu gwneud hynny).

11.4 Cyflwynir y Datganiad MRP i'r Awdurdod cyn dechrau blwyddyn ariannol 2012/13. Pe bai byth gynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid rhoi datganiad diwygiedig i'r Awdurdod ar yr adeg honno.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi, a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi, a ariennir o fenthyciad.

Bydd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau PFI a brynwyd ar Fantolen dan y Côd Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr IFRS yn cyd-fynd â'r prif ad-daliad blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad a ohiriwyd sy'n gysylltiedig â hyn.

## 12 Monitro ac Adrodd ar Alldro'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus

12.1 Bydd y Pennaeth Adran Cyllid yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar weithgarwch / perfformiad rheolaeth trysorlys Dangosyddion Perfformiad fel a ganlyn:

- bob chwe mis yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn. Bydd yr Awdurdod yn cynhyrchu adroddiad alldro ar ei weithgarwch trysorlys ddim hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.
- Y Pwyllgor Archwilio fydd yn gyfrifol am graffu'r gweithgarwch a'r arferion rheoli trysorlys.

## 13 Eitemau Eraill

13.1 Hyfforddiant

Mae Côd Ymarfer CIPFA yn gofyn i'r Pennaeth Cyllid sicrhau bod pob aelod sydd â chyfrifoldebau rheolaeth trysorlys, yn cynnwys craffu'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys, yn derbyn hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn. Gellir darparu hyfforddiant swyddogol, o ffynhonnell allanol o bosib, i aelodau perthnasol yn ystod 2012/13.

**Dangosyddion Darbodus 2012/13 – 2014/15**

## 1. Cefndir:

Mae gofyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i awdurdodau lleol ystyried y ddogfen CIPFA's Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities ("Côd Darbodus CIPFA") wrth bennu eu Dangosyddion Darbodus ac wrth eu hadolygu.

## 2. Benthyca Net a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae hyn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth. Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd y benthyca net dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r benthyciadau allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, a hefyd ar ben hynny yr amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn adrodd na chafodd yr awdurdod unrhyw drafferth cwrdd â'r gofyn hwn yn 2011/12, ac na ragwelir unrhyw drafferthion ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon wedi cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau presennol, cynlluniau sy'n bodoli eisoes a'r cynigion yn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo.

## 3. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf:

3.1 Gosodwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod lefel y gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn benodol, i ystyried yr effaith ar y Dreth Gyngor.

| **Gwariant Cyfalaf** | **Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £m** | **Wedi'i ddiwygio 2011/12 £m** | **Amcan 2012/13 £m** | **Amcan 2013/14 £m** | **Amcan 2014/15 £m** |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Cronfa Gyffredinol | 34.17 | 38.65 | 61.44 | 35.99 | 16.47 |
| Cyfrif Refeniw Tai (HRA) | 0.0 | 0.06 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **34.17** | **38.71** | **61.44** | **35.99** | **16.47** |

3.2 Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido neu ei ariannu fel a ganlyn:

| **Cyllido Cyfalaf** | **Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £m** | **Wedi'i ddiwygio 2011/12 £m** | **Amcan 2012/13 £m** | **Amcan 2013/14 £m** | **Amcan 2014/15 £m** |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Derbyniadau cyfalaf | 3.74 | 4.20 | 1.89 | 2.09 | 2.10 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 7.30 | 15.66 | 31.13 | 15.55 | 2.46 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau Refeniw | 2.52 | 9.04 | 13.92 | 4.04 | 2.10 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **13.56** | **28.90** | **46.94** | **21.68** | **6.66** |
| Benthyca wedi'i gefnogi | 5.44 | 5.44 | 4.89 | 4.07 | 4.07 |
| Benthyca heb ei gefnogi | 15.17 | 4.37 | 9.61 | 10.24 | 5.74 |
| Cyfanswm Ariannu | **20.61** | **9.81** | **14.50** | **14.31** | **9.81** |
| **Cyfanswm Cyllido ac Ariannu** | **34.17** | **38.71** | **61.44** | **35.99** | **16.47** |

## 4. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:

4.1 Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido. Mae'r diffiniad o gostau cyllido i'w gael yn y Côd Darbodus.

4.2 Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar gostau net incwm o fuddsoddiadau.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:** | **Wedi'i gymeradwyo 2011/12 %** | **Wedi'i ddiwygio 2011/12 %** | **Amcan 2012/13 %** | **Amcan 2013/14 %** | **Amcan 2014/15 %** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 5.68 | 5.56 | 5.65 | 5.55 | 5.57 |
| HRA | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5.68** | **5.56** | **5.65** | **5.55** | **5.57** |

## 5. Gofyn Cyllido Cyfalaf

5.1 Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Cyfrifir y CFR o'r symiau a ddelir ar y Mantolenni sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf, a'i gyllido.

| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £m** | **Wedi'i ddiwygio 2011/12 £m** | **Amcan 2012/13 £m** | **Amcan 2013/14 £m** | **Amcan 2014/15 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 164.22 | 153.80 | 162.03 | 170.34 | 173.50 |
| HRA | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm CFR** | **164.22** | **153.80** | **162.03** | **170.34** | **173.50** |

## 6. Gwir Ddyledion Allanol:

6.1 Ceir y dangosydd hwn yn uniongyrchol o fantolen y Cyngor. Dyma'r balans terfynol ar gyfer y gwir fenthyca gros ac ymrwymiadau hirdymor eraill. Caiff y Dangosydd hwn ei fesur mewn modd sy'n addas ar gyfer ei gymharu â'r Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig.

| **Gwir Ddyledion Allanol ar 31/03/2011** | **£m** |
|---|---|
| Benthyca | 118.7 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill | 0.1 |
| **Cyfanswm** | **118.8** |

## 7. Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddi Cyfalaf:

7.1 Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Cyfrifir yr effaith ychwanegol (incremental impact) drwy gymharu cyfanswm y gofyn cyllideb refeniw yn y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol, gyda chyfrifiad cyfwerth o'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf: | Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £ | Amcan 2012/13 £ | Amcan 2013/14 £ | Amcan 2014/15 £ |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn Band D y Dreth Gyngor | 0.00 | 0.00 | 4.03 | 2.01 |

Mae'r cynnydd hwn yn nhreth y cyngor wythnosol Band D, yn adlewyrchu'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer Ffioedd Cyllido Cyfalaf i wneud benthyciad yn deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

**8. Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol:**

8.1 Mae gan y Cyngor strategaeth rheolaeth trysorlys integredig, ac mae'n rheoli ei sefyllfa trysorlys yn unol â'i strategaeth a'i ymarfer cymeradwy. Bydd benthyca ar y cyfan felly'n cynyddu o ganlyniad i holl drafodion cyllidol y Cyngor, ac nid yn unig y rheini sy'n deillio o wariant cyfalaf sydd wedi'i adlewyrchu yn y CFR.

8.2 Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn gosod y lefel uchaf posib o fenthyca allanol ar sail gros (h.y. dim net o fuddsoddiadau) ar gyfer y Cyngor. Caiff ei fesur yn ddyddiol yn erbyn yr holl eitemau benthyca allanol ar y Fantolen (h.y. benthyca tymor byr a hir, balansau banc sy'n ddyledus, ac ymrwymiadau tymor hir. Mae'r Dangosydd Darbodus hwn yn adnabod benthyca o rwymedigaethau tymor hir eraill, megis lesau cyllid, ar wahân. Mae'n gyson ag ymrwymiadau presennol y Cyngor, ei gynigion ar gyfer gwariant a chyllido cyfalaf, a'i ymarferion a datganiad polisi ar reolaeth trysorlys.

8.3 Mae'r Terfyn Awdurdodedig wedi'i osod yn ôl yr amcangyfrif o'r sefyllfa fwyaf tebygol a darbodus, ond nid y sefyllfa waethaf serch hyn, gyda digon o hyblygrwydd i ganiatáu symudiadau arian anarferol.

8.4 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn statudol a bennwyd dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003 (cyfeirir ato yn y ddeddfwriaeth fel y Terfyn Fforddiadwy).

| Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol | Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £m | Wedi'i ddiwygio 2011/12 £m | Amcan 2012/13 £m | Amcan 2013/14 £m | Amcan 2014/15 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 190.00 | 189.50 | 189.75 | 194.95 | 194.99 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill | 0.00 | 0.50 | 0.25 | 0.05 | 0.01 |
| Cyfanswm | **190.00** | **190.00** | **190.00** | **195.00** | **195.00** |

8.5 Mae'r Ffin Weithredol yn cysylltu'n uniongyrchol i amcangyfrifon y Cyngor o'r CFR, ac amcangyfrifon o ran gofynion llif arian eraill. Mae'r dangosydd hwn wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig sy'n adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf, a heb gynnwys yr hyblygrwydd sydd wedi'i gynnwys yn y Terfyn Awdurdodedig.

8.6 Mae Pennaeth yr Adran Cyllid wedi dirprwyo awdurdod, o fewn cyfanswm y terfyn am unrhyw flwyddyn unigol, i ganiatáu symudiad rhwng y terfynau ar gyfer benthyca a gytunwyd ar wahân, ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill. Bydd penderfyniadau'n seiliedig ar ddeilliant yr arfarniadau dewisiadau ariannol a'r ystyriaethau gwerth gorau. Adroddir am unrhyw symudiad rhwng y terfynau ar wahân hyn i gyfarfod nesaf Bwrdd y Cyngor/Cabinet.

| Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol | Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £m | Wedi'i adolygu 2011/12 £m | Amcan 2012/13 £m | Amcan 2013/14 £m | Amcan 2014/15 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 170.00 | 169.50 | 169.75 | 174.95 | 174.99 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill | 0.00 | 0.50 | 0.25 | 0.05 | 0.01 |
| **Cyfanswm** | **170.00** | **170.00** | **170.00** | **175.00** | **175.00** |

**9. Mabwysiadu Côd Rheolaeth Trysorlys CIPFA:**

9.1 Mae'r dangosydd yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion arferion gorau.

| **Mabwysiadu Côd Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA** |
|---|
| Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fabwysiadu Côd Rheolaeth Trysorlys CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2011. |

Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r newidiadau i'r Côd Ymarfer CIPFA diwygiedig yn ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i arferion trysorlys.

**10. Dyled Gros a Net:**

10.1 Pwrpas y dangosydd trysorlys hwn yw tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi.

| Terfyn Uchaf ar Ddyledion Net o'u cymharu â Dyledion Gros | Amcan 2011/12 £m | Amcan 2012/13 £m | Amcan 2013/14 £m | Amcan 2014/15 £m |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau heb eu clirio (gwerth nominal) | 113.87 | 112.61 | 113.49 | 116.50 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill (gwerth nominal) | 0.47 | 0.23 | 0.04 | 0.01 |
| **Dyledion Gros** | **114.34** | **112.84** | **113.53** | **116.51** |
| Llai: Buddsoddiadau | **(63.14)** | **(58.88)** | **(57.65)** | **(57.13)** |
| **Dyledion Net** | **51.20** | **53.96** | **55.88** | **59.38** |

**11. Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol:**

11.1 Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu i'r Cyngor reoli i ba raddau y caiff ei effeithio gan newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r Cyngor yn cyfrifo'r terfynau hyn ar y prif symiau net sydd heb eu clirio (h.y. dyledion cyfradd sefydlog net o fuddsoddiadau cyfraddau sefydlog / llog net a dalwyd).

11.2 Mae'r terfyn uchaf ar gyfer effaith cyfraddau llog cyfnewidiol wedi'i osod i sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i gynnydd mewn cyfraddau llog a allai gael effaith andwyol ar y gyllideb refeniw. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar fuddsoddiadau.

| | Lefel gyfredol (neu lefel Meincnod) ar 31/03/11 % | Wedi'i gymeradwyo 2011/12 % | Wedi'i adolygu 2011/12 % | Amcan 2012/13 % | Amcan 2013/14 % | Amcan 2014/15 % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Terfyn Uchaf ar gyfer Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog | 42.6% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Terfyn Uchaf ar gyfer Effaith Cyfraddau Llog Cyfnewidiol | 0% | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% |

11.3 Mae'r terfynau uchod yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau i gymryd benthyciadau newydd ar sail cyfraddau llog sefydlog neu gyfnewidiol; yn y pen draw, gwneir y penderfyniadau yn seiliedig ar y symudiadau disgwyliedig mewn cyfraddau llog, fel y nodir yn strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

**12. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog:**

12.1 Mae'r dangosydd hwn yn tynnu sylw at fodolaeth unrhyw grynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog, ac mae wedi'i ddylunio i ddiogelu yn erbyn effaith ormodol newidiadau i gyfraddau llog mewn unrhyw gyfnod, yn enwedig dros y deng mlynedd nesaf.

12.2 Cyfrifir hyn fel cyfanswm y benthyciadau cyfradd sefydlog a ragamcanir fydd yn aeddfedu ym mhob cyfnod, fel canran o gyfanswm y benthyciadau cyfradd sefydlog a ragamcanir. Pennir aeddfedrwydd benthyciadau drwy gyfeirio at y dyddiad cynharaf ble y gall y benthyciwr ofyn am daliad.

| Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | Lefel gyfredol (neu lefel Meincnod) ar 31/03/11 % | Terfyn Isaf ar gyfer 2012/13 % | Terfyn Uchaf ar gyfer 2012/13 % |
|---|---|---|---|
| dan 12 mis | 4.03% | 0% | 25% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 14.71% | 0% | 25% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 1.78% | 0% | 50% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 6.22% | 0% | 75% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 17.33% | 0% | 100% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 31.02% | 0% | 100% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 1.86% | 0% | 100% |
| 40 mlynedd a mwy | 23.05% | 0% | 100% |

**13. Risg Credyd:**

13.1 Mae'r Cyngor yn ystyried diogelwch, hylifedd ac enillion, yn y drefn honno, wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

13.2 Mae statws credyd yn parhau'n elfen bwysig o asesu risg credyd, ond nid dyma'r unig nodwedd sydd wedi'i chynnwys yn asesiad y Cyngor o risg credyd gwrthbartïon.

13.3 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn ystyried asesiadau amgen o gryfder credyd, a gwybodaeth ar ddatblygiadau corfforaethol a theimlad y farchnad tuag at wrthbartïon. Defnyddir y teclynnau allweddol a ganlyn i asesu risg credyd:

- Statws credyd cyhoeddedig y sefydliad ariannol (isafswm o A- neu gyfwerth), a'i sofren (isafswm o AA+ neu gyfwerth ar gyfer sofrenni o'r tu allan i'r DU);
- Mecanweithiau i gefnogi'r sofren;
- *"Credit default swaps"* (ble bônt wedi'u nodi);
- Prisiau cyfranddaliadau (ble bo hynny ar gael);
- Elfennau sylfaenol Economaidd, megis dyledion net y wlad fel canran o'i GDP;
- Datblygiadau corfforaethol, newyddion, erthyglau, teimladau a momentwm y farchnad;
- Synnwyr cyffredin.

13.4 Statws credyd yw'r unig ddangosydd sy'n parhau i fod â gwerth ragnodol. Mae dangosyddion eraill o deilyngdod credyd yn cael eu hystyried mewn telerau cymharol yn hytrach nac mewn telerau absoliwt.

## 14. Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod:

14.1 Pwrpas y terfyn hwn yw ceisio atal y posibilrwydd o golled allai ddigwydd pan fo'r Cyngor yn gorfod ceisio ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar.

| **Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir dros 364 diwrnod** | **Wedi'i gymeradwyo 2011/12 £m** | **Wedi'i adolygu 2011/12 £m** | **Amcan 2012/13 £m** | **Amcan 2013/14 £m** | **Amcan 2014/15 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| | 40.00 | 40.00 | 40.00 | 40.00 | 40.00 |

**ATODIAD CH**

## RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD

| Gwlad | Gwrthbartïon | Terfyn uchaf y Buddsoddiad £m | Uchafswm cyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim terfyn | Dim terfyn |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £25m (£25m) | Blwyddyn |
| Y DU | **Santander UK Plc (Banco Santander Group)** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Bank of Scotland (Lloyds Banking Group)** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Lloyds TSB (Lloyds Banking Group)** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Barclays Bank Plc** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Clydesdale Bank (National Australia Bank Group)** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **HSBC Bank Plc** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Nationwide Building Society** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **NatWest (RBS Group)** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Royal Bank of Scotland (RBS Group)** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Y DU | **Standard Chartered Bank** | £20m (£20m) | **Blwyddyn (2 flynedd)** |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Bank of Montreal | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Royal Bank of Canada | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | BNP Paribas | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | Credit Agricole SA (Credit Agricole Group) | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Ffrainc | Société Générale | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Yr Iseldiroedd | Bank Nederlandse Gemeenten | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| Y Swistir | Credit Suisse | £5m (£5m) | Blwyddyn |
| UDA | JP Morgan | £5m (£5m) | Blwyddyn |

1. Mae terfyn o £20m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.
2. Bydd buddsoddiadau mewn banciau y tu allan i'r DU yn cael eu cyfyngu i derfyn uchaf o 40% o'r portffolio, gyda therfyn gwlad o £10m hyd at uchafswm o 30% o'r portffolio i bob gwlad.

Noder y gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti / gwlad yn cael eu huwchraddio, a'u bod yn bodloni ein teclynnau teilyngdod credyd. Yn yr un modd, os bydd gwrthbarti'n cael ei israddio, gall y rhestr hon fynd yn fyrrach.

| **Offeryn** | **Gwlad** | **Gwrthbarti** | **Terfyn uchaf y Buddsoddiad £m** | **Uchafswm cyfnod y Benthyciad** |
|---|---|---|---|---|
| Giltiau* | Y Deyrnas Unedig | DMO | Dim terfyn | 6 mlynedd |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | Y DU/Iwerddon/ Lwcsembwrg | Cronfeydd Marchnad Arian | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Cronfeydd Arian Marchnad eraill a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Y Deyrnas Unedig | Cynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Biliau'r Trysorlys* | Y Deyrnas Unedig | DMO | Dim terfyn | Blwyddyn |
| Biliau'r Awdurdod Lleol* | Y Deyrnas Unedig | Awdurdodau Lleol y DU | £25m | Blwyddyn |
| Bondiau a gyflwynir gan fanciau datblygu amlochrog* | Ewrop / America | EIB, Cyngor Ewrop, Inter American Investment Bank | £5m | 6 mlynedd |
| Bondiau a gyflwynir gan sefydliadau ariannol sydd wedi'u gwarantu gan lywodraeth y DU* | Y Deyrnas Unedig | Sefydliadau ariannol sydd wedi'u gwarantu | £5m | 6 mlynedd |
| Bondiau sy'n defnyddio Sterling gan lywodraethau sofren y tu allan i'r DU* | Ddim yn y DU | Llywodraethau Sofren Ddim yn y DU | £5m | 3 blynedd |
| Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol** | Y Deyrnas Unedig | Yn unol â'r hyn a gytunwyd â'r Cynllun Cronfa Fenthyciadau Lleol | £1m | 10 mlynedd |

* Byddwn yn buddsoddi yn yr offerynnau hyn yn unol â chyngor ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

** Bydd parhau â'r benthyciadau hyn yn cael ei gymeradwyo gan y broses y manylir arni yn Atodiad B, Paragraff 7. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor nac o'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.